# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING

**Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Atodlen 3**

# Ffurflen gais am arolygiad ail-sgorio

**Nodiadau ar gyfer busnesau**

- Fel gweithredwr busnes bwyd mae gennych hawl, o dan adran 12 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i wneud cais ar unrhyw adeg am arolygiad at y diben o ailsgorio, ar yr amod eich bod wedi talu costau rhesymol yr ailsgorio yn unol ag adran 13 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (oni fydd yr awdurdod bwyd wedi ymatal rhag gofyn am dalu'r costau hynny ymlaen llaw – fel y darperir ar ei gyfer yn adran 12(6) o'r Ddeddf, ac os felly, ceir talu'r costau ar ôl cwblhau'r arolygiad ailsgorio) **ac os bodlonir hefyd** yr amodau canlynol:
  a) bod unrhyw apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd bresennol wedi ei phenderfynu;
  b) eich bod wedi hysbysu'r awdurdod bwyd y gwnaed gwelliannau yn safonau hylendid y sefydliad;
  c) bod yr awdurdod bwyd o'r farn y byddai'n rhesymol arolygu ac asesu'r sefydliad ymhellach oherwydd y gwelliannau yr honnir eu bod wedi'u gwneud;
  d) bod y sticer sgôr hylendid bwyd cyfredol yn cael ei arddangos yn eich sefydliad yn unol â gofynion adran 7 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliad 9 o Reoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013;
  e) eich bod wedi cytuno i sicrhau y caniateir mynediad i'r awdurdod bwyd i gynnal arolygiad o'r sefydliad at y diben o ailsgorio.
- Bydd swyddog yr awdurdod lleol yn rhoi ichi sgôr hylendid bwyd _newydd', ar sail y lefel o gydymffurfiaeth a ganfyddir ar adeg yr ail ymweliad – dylech fod yn ymwybodol y gall eich sgôr naill ai godi neu ostwng, neu aros fel y mae ar hyn o bryd.
- I wneud cais am ail ymweliad, defnyddiwch y ffurflen isod os gwelwch yn dda a dychwelwch y ffurflen at swyddog diogelwch bwyd eich awdurdod lleol – anfonwyd y manylion cyswllt gyda'r hysbysiad ysgrifenedig o'ch sgôr hylendid bwyd.
- Gwneir yr ail ymweliad o fewn 3 mis ar ôl gwneud y cais, ac fel rheol ni roddir rhybudd ymlaen llaw.
- Ar ôl i chi gyflwyno eich cais a ninnau gychwyn ei brosesu, ni fydd modd i chi gael ad-daliad o'r ffi.

| | |
|---|---|
| Gweithredwr y busnes bwyd | |
| Enw'r busnes | |
| Cyfeiriadau'r busnes | |
| Rhif ffôn y busnes | |
| Ebost y busnes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad arolygu | | Sgôr hylendid bwyd a roddwyd | |

| | |
|---|---|
| Enw cyswllt (os yw'n wahanol i weithredwr y busnes bwyd) | |
| Cyfeiriad neu gyfeiriadau cyswllt y brif swyddfa (os yw'n wahanol i weithredwr y busnes | |
| Rhif ffôn cyswllt | |

**Disgrifiwch y gwelliannau yr ydych chi wedi eu gwneud o ran y materion a nodwyd yn y llythyr/adroddiad arolygu a gawsoch chi gan yr awdurdod lleol o ran y sgôr hylendid bwyd:**

| | |
|---|---|
| Cydymffurfio â'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â hylendid bwyd a diogelwch | |
| Cydymffurfio â'r gofynion strwythurol | |
| Hyder yn y gweithdrefnau rheolaeth/rheoli | |

**Unrhyw dystiolaeth ategol arall (e.e. ffotograffau, anfonebau, copïau o ddogfennau perthnasol ac ati).**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | | |
| Enw mewn llythrennau bras | | | |
| Swydd | | Dyddiad | |

**Nid yw'r ffurflen hon yn ddilys oni fydd ffi o £255 wedi ei thalu. I dalu anfonwch siec sy'n daladwy i Gyngor Sir Ceredigion neu ffoniwch 01545 572105 i dalu gyda cherdyn credyd/debyd.**

Rhowch dic yma os ydych am gael derbynneb ☐
Rhowch dic yma os ydych wedi dalu gyda cherdyn ☐

Llanwch y ffurflen a'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod:
**Swyddog Arweiniol Diogelwch Bwyd**
**Polisi a Pherfformiad, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE**

Neu ebostio PublicProtection@ceredigion.gov.uk